*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(c) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd (AEIau) gan gyrff cyhoeddus a restrir yn adran 110(1) o'r Ddeddf. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan ddefnyddio pwerau o dan adrannau 108, 109 a 110 o'r Ddeddf.

Mae AEI yn asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr a'r tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl holl bobl Cymru neu rai ohonynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud amryw o ddarpariaethau ynghylch cynnal AEIau gan gyrff cyhoeddus. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu personau ychwanegol at y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 110(1) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid i AEI gael ei gynnal gan gorff cyhoeddus pan fydd yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r materion y mae rhaid i gorff cyhoeddus eu nodi a'u hasesu wrth gynnal AEI, a ffactorau y mae rhaid i'r corff cyhoeddus roi sylw iddynt wrth wneud hynny.

Mae rheoliad 5 yn darparu bod rhaid i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru lunio canllawiau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gynnal AEI.

Mae rheoliad 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi AEIau.

Mae rheoliad 7 yn ychwanegu cyrff cyhoeddus ychwanegol at y rhestr yn adran 110(1) o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(c) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2025 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *6 Ebrill 2027* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 108(1), (3), (4) a (5), 109(4) a 110(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**).

Yn unol ag adran 108(7) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi—

(a) ystyried a oes personau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rheini y mae'r Rheoliadau hyn yn debygol o effeithio arnynt ("personau cynrychiadol"), a

(b) cynnal ymgynghoriad â'r personau cynrychiadol yr oedd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(**1**) 2017 dccc 2. *Gweler* adran 110(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "corff cyhoeddus" ac adran 108(2) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "asesiad o'r effaith ar iechyd".

(**2**) *Gweler* adran 124(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 am y diffiniad o "rheoliadau".

Yn unol ag adran 123(2)(c) o’r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o’r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(**1**) ac fe’i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) Mae’r cyfeiriad yn adran 123 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy’n gymwys i’r offeryn hwn.

## Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2027.

## Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "AEI" ("*HIA*") yw asesiad o'r effaith ar iechyd;

ystyr "asesiad o'r effaith ar iechyd" ("*health impact assessment*") yw asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru;

ystyr "corff cyhoeddus" ("*public body*") yw person sydd wedi ei restru yn adran 110(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**).

## Yr amgylchiadau y mae AEI yn ofynnol odanynt

**3.** Rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI pan fydd yn bwriadu gwneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau.

## Sut i gynnal AEI

**4.**—(1) Wrth gynnal AEI a bennir yn rheoliad 3, rhaid i gorff cyhoeddus—

(a) nodi'r penderfyniad y mae'r AEI yn ymwneud ag ef;

(b) nodi unrhyw grwpiau o'r boblogaeth y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gall y penderfyniad effeithio ar eu hiechyd corfforol neu eu hiechyd meddwl;

(c) nodi ac asesu—

(i) unrhyw effeithiau a fwriedir gan y penderfyniad, ac unrhyw effeithiau nas bwriedir gan y penderfyniad y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol eu bod yn debygol, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl unrhyw grwpiau o'r boblogaeth a nodir o dan is-baragraff (b),

(ii) mewn perthynas ag unrhyw effeithiau a nodir o dan is-baragraff (c)(i), unrhyw fesurau y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried yn rhesymol y gallant atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau

(**1**) 2017 dccc 2.

negyddol neu gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol, a

(iii) unrhyw beth arall y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn berthnasol i gynnal yr AEI.

(2) Wrth nodi ac asesu unrhyw effeithiau at ddibenion paragraff (1)(c)(i), rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i'r penderfynyddion iechyd ehangach ac unrhyw ffactorau annhegwch iechyd.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "ffactorau annhegwch iechyd" yw unrhyw wahaniaethau o ran canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd y gellir eu hesbonio'n rhesymol, neu y gallant fod wedi eu hachosi'n rhesymol, gan unrhyw sail, gan gynnwys—

(i) statws economaidd-gymdeithasol,

(ii) lleoliad daearyddol, a

(iii) presenoldeb nodwedd warchodedig o fewn ystyr "protected characteristic" ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**);

(b) ystyr "cyfleoedd iechyd" yw mynediad at gyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd y mae'r corff cyhoeddus sy'n cynnal yr AEI yn ystyried yn rhesymol eu bod yn hybu neu'n gwella iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu y bwriedir iddynt wneud hynny;

(c) ystyr "penderfynyddion iechyd ehangach" yw'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a all effeithio ar iechyd pobl.

### Cymorth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

**5.** Rhaid i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi canllawiau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus sy'n cynnal AEI.

### Cyhoeddi AEI

**6.** Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cynnal AEI, rhaid i gorff cyhoeddus gyhoeddi'r AEI mewn unrhyw fodd y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn briodol.

---

(**1**) 2010 p. 15, y mae diwygiadau i Bennod 1 ohoni nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygio adran 110(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**

**7.**—(1) Mae adran 110(1) (ystyr "corff cyhoeddus") o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(ba) cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);".

(3) Ar ôl paragraff (d)(ii) mewnosoder—

"(iii) Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; ".

(4) Ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(da) yr awdurdodau iechyd arbennig a ganlyn a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42)—

(i) Iechyd a Gofal Digidol Cymru;

(ii) Addysg a Gwella Iechyd Cymru;".

(5) Ar ôl paragraff (l) mewnosoder—

"(m) Gofal Cymdeithasol Cymru;

(n) Awdurdod Cyllid Cymru;

(o) Trafnidiaeth Cymru (sef Transport for Wales (rhif y cwmni 09476013));

(p) Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (sef Centre for Digital Public Services Limited (rhif y cwmni 09341679));

(q) Cymwysterau Cymru."

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad